OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Mehefin 2022* |
| *Yn dod i rym* | *5 Gorffennaf 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu ei chyfyngu ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Gorffennaf 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A55 Trunk Road (Pen-y-clip Tunnel, Conwy County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2022

| | |
|---|---|
| *Made* | *30 June 2022* |
| *Coming into force* | *5 July 2022* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A55 Trunk Road (Pen-y-clip Tunnel, Conwy County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2022 and this Order comes into force on 5 July 2022.

### Interpretation

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” *(“exempted vehicle”)* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 5 Gorffennaf 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” *(“special forces”)* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr “marciau ymyl y gerbytffordd” (“*edge of the carriageway markings*”) yw’r marciau a ddangosir yn rhifau Diagram 1002.1 a 1004 yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016(**2**).

## Gwaharddiadau a chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar naill ai gerbytffordd tua’r dwyrain neu gerbytffordd tua’r gorllewin y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(**2**) O.S. 2016/362.

“edge of the carriageway markings” *(“marciau ymyl y gerbytffordd”)* means the markings shown at Diagram numbers 1002.1 and 1004 in the Traffic Signs Regulations and General Directions 2016(**1**);

“exempted vehicle” *(“cerbyd esempt”)* means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**2**); and

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of the member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” *(“lluoedd arbennig”)* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” *(“y gefnffordd”)* means the A55 Chester to Bangor trunk road;

“works period” *(“cyfnod y gwaith”)* means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 5 July 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

## Prohibitions and restrictions

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on either the eastbound or westbound carriageways of the length of trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

(**1**) S.I. 2016/362.

(**2**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8(2), paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**4.**—(1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 11, heb eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r dwyrain;

(b) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r dwyrain drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 11, heb eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r gorllewin;

(b) defnyddio neu ganiatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd cerbyd arall ar gerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

(c) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i'r gorllewin drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.

**9.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

**10.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 8 i'r Gorchymyn hwn.

**4.**—(1) Whilst vehicle movement is, by article 3, prohibited on the eastbound carriageway but, pursuant to article 11, not prohibited on the westbound carriageway, no person may drive so as to cause or permit any vehicle to:

(a) proceed in the offside lane of the westbound carriageway in any direction other than eastwards;

(b) proceed in any direction other than eastwards through the gaps in the central reservation of the lengths of the trunk road specified in Schedule 5 to this Order.

(2) Whilst vehicle movement is, by article 3, prohibited on the westbound carriageway but, pursuant to article 11, not prohibited on the eastbound carriageway, no person may drive so as to cause or permit any vehicle to:

(a) proceed in the offside lane of the eastbound carriageway in any direction other than westwards;

(b) use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the eastbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order;

(c) proceed in any direction other than westwards through the gaps in the central reservation of the lengths of the trunk road specified in Schedule 5 to this Order.

**5.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedules 3 and 4 to this Order.

**6.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

**7.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

**8.** No person, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 3.2 metres on the lengths of the trunk road specified in Schedule 6 to this Order.

**9.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 7 to this Order.

**10.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in Schedule 8 to this Order.

### Cymhwyso

**11.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'u dangosir gan arwyddion traffig.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal dros dro

**12.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Ardal Pen-y-clip, Gwynedd) (Traffig Unffordd) 1994(**1**) wedi eu hatal, i'r graddau y maent yn ymwneud â lon allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol ag erthygl 3.

**13.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar neu'n dileu cyfyngiadau cyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

### Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

**14.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Mehefin 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 1994/192.

### Application

**11.**—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10 apply only at such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### Suspension

**12.** The provisions of The Trunk Road (A55) (Pen-y-clip Section, Gwynedd) (One Way Traffic) Order 1994(**1**) are suspended insofar as they relate to the offside lane of the eastbound carriageway of the length of trunk road specified in Schedule 1 to this Order during such times as the westbound carriageway is closed in accordance with article 3.

**13.** Any statutory provisions restricting or derestricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 6 and 7 are in operation.

### Duration of this Order

**14.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 30 June 2022

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

(**1**) S.I. 1994/192.

**ATODLEN 1**
**Y gwrthlif**

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 208 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables.

**ATODLEN 2**
**Dim goddiweddyd**

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd ar y pentir sy’n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 208 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables.

**ATODLEN 3**
**Cau Cyffordd Gorllewin Penmaenmawr a ffordd ymadael tua’r dwyrain Cyffordd 15a**

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r ffordd sirol a elwir Ffordd Bangor hyd at farciau ymyl y gerbytffordd ar ochr ddeheuol prif gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd.

Y darn o ffordd ymadael tua’r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 15a.

**ATODLEN 4**
**Gwahardd cerbydau (cyfnodau byr yn unig) a therfyn cyflymder 40 mya a/neu 50 mya**

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt yr ynys hollti ar y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 13 (pentref Abergwyngregyn), hyd at bwynt 100 metr i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn), y ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 15a a’r bylchau yn y llain ganol a nodir yn Atodlen 5 i’r Gorchymyn hwn.

Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 100 metr i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys ffordd ymuno tua’r gorllewin y gyffordd hon, hyd at ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn), gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol a nodir yn Atodlen 5 i’r Gorchymyn hwn.

**ATODLEN 5**
**Terfynau’r bylchau yn y llain ganol**

Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 78 o

**SCHEDULE 1**
**Contraflow**

The length of the trunk road that extends from a point 97 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to a point 208 metres east of the centre-point of the Red Gables Viaduct over-bridge.

**SCHEDULE 2**
**No overtaking**

The length of the eastbound headland carriageway of the trunk road that extends from a point 97 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to a point 208 metres east of the centre-point of the Red Gables Viaduct over-bridge.

**SCHEDULE 3**
**Closure of Penmaenmawr West Junction and Junction 15a eastbound exit slip road**

The length of the trunk road that extends from its junction with the county road known as Ffordd Bangor to the edge of the carriageway markings on the southern side of the main westbound carriageway of the trunk road.

The length of the eastbound exit slip road of the trunk road at Junction 15a.

**SCHEDULE 4**
**Prohibition of vehicles (short periods only) & 40 mph and/or 50 mph speed limits**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of the eastbound off slip splitter island at Junction 13 (Abergwyngregyn village) to a point 100 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the eastbound entry slip road at Junction 14 (Madryn Interchange), the eastbound exit slip road at Junction 15a and the central reserve gaps in Schedule 5 to this Order.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 100 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the westbound entry slip road at this junction, to the centre-point of the over-bridge at Junction 14 (Madryn Interchange), including the central reserve gaps in Schedule 5 to this Order.

**SCHEDULE 5**
**Limits of the central reserve gaps**

The gap in the central reservation situated between a

fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables a phwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o'r drosbont honno.

Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at bwynt 226 o fetrau i'r dwyrain o'r gylchfan honno.

point 78 metres east of the centre-point of the Red Gables Viaduct over-bridge and a point 208 metres east of that over-bridge.

The gap in the central reservation situated between a point 97 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to a point 226 metres east of that roundabout.

**ATODLEN 6**
**Cyfyngiad ar led cerbydau**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) hyd at bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 a Chyffordd 17.

**SCHEDULE 6**
**Vehicle width restriction**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 25 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange).

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) to a point 25 metres east of the centre-point of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout), including the westbound entry slip roads at Junction 18 and Junction 17.

**ATODLEN 7**
**Gwahardd beicwyr**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ynys hollti Cyffordd 14, i gyfeiriad y dwyrain o amgylch Pentir Pen-y-clip i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twnnel Pen-y-clip, gan gynnwys y darn o'r droetffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont i gerddwyr i'r dwyrain o Gyffordd 15, i gyfeiriad y dwyrain i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twnnel Pen-y-clip.

**SCHEDULE 7**
**Prohibition of cyclists**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nose of the splitter island for Junction 14, eastbound around Pen-y-clip Headland to the signed pedestrian crossing point adjacent to the eastern portal of Pen-y-clip Tunnel, including the length of the footway that extends from the centre-point of the pedestrian over-bridge to the east of Junction 15, eastbound to the signed pedestrian crossing point adjacent to the eastern portal of Pen-y-clip Tunnel.

**ATODLEN 8**
**Gwahardd cerddwyr**

Y darn o'r droetffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont i gerddwyr i'r dwyrain o Gyffordd 15, i gyfeiriad y dwyrain i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twnnel Pen-y-clip.

**SCHEDULE 8**
**Prohibition of pedestrians**

The length of the footway that extends from the centre-point of the pedestrian over-bridge to the east of Junction 15, eastbound to the signed pedestrian crossing point adjacent to the eastern portal of Pen-y-clip Tunnel.